***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 848

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

## RHAN 5

Addasu darpariaethau budd gwasanaeth byr

**Budd gwasanaeth byr**

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson (P)—

(a) sy'n aelod gohiriedig o'r cynllun newydd;

(b) sydd â hawl i gael buddion o dan y cynllun newydd; ac

(c) y mae—

(i) ei hawlogaeth i gael buddion o dan y cynllun newydd wedi ei phenderfynu gan, neu

(ii) ei fuddion o dan y cynllun newydd yn cael eu cyfrifo drwy gyfeirio at,

oedran pensiwn gohiriedig P yn hytrach nag oedran pensiwn arferol P.

(2) At ddibenion y gofynion yn adrannau 71, 72, 74 a 75 o Ddeddf 1993(**1**) ac mewn unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Bennod 1 o Ran 4 o'r Ddeddf honno, fel y maent yn gymwys i P, anwybyddir unrhyw wahaniaeth—

(a) rhwng hawlogaeth P i gael buddion o dan y cynllun newydd a hawlogaeth unrhyw aelod actif i gael buddion o dan y cynllun newydd, neu

(b) rhwng y cyfrifiad o fuddion P o dan y cynllun newydd ac unrhyw gyfrifiad o fuddion aelod actif o dan y cynllun newydd.

(**1**) 1993 p. 48. Diwygiwyd adran 71 gan adran 263(1) o Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35) a chan adran 27 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (p. 25) a pharagraffau 18 a 19 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 72 gan adran 263(2) o Ddeddf Pensiynau 2004.